# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU

## HAF 2013

© WJEC CBAC Cyf.

RHAGARWEINIAD

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Haf 2013 TGAU ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU.  Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.  Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU ASTUDIO'R CYFRYNGAU**

**Cynllun Marcio - Haf 2013**

**UNED 1**

**ADRAN A: Meddwl am y Cyfryngau – Ymchwilio i *Ddrama Deledu (ac eithrio Trosedd)***

**C.1** (a) Nodwch **ddau** leoliad gwahanol sydd wedi'u defnyddio yn y darn. **[4]**

Amrywiaeth eang o leoliadau i ddewis o'u plith, mewnol ac allanol.

**2 farc** am bob lleoliad hyd at 4 o blith y canlynol:

- Meysydd Brwydr y Rhyfel Byd Cyntaf, Y Somme.
- Downton Abbey, y tu allan i'r tŷ.
- Y ffos.
- Lonydd cefn gwlad Lloegr.
- Cefn y tŷ.
- Y neuadd fawr.
- Yr ystafell fwyta.

(b) Esboniwch yn fyr pam mae'r **ddau** leoliad hyn yn cael eu defnyddio. **[6]**
Rhowch hyd at 3 marc ar y mwyaf am roi esboniad am un lleoliad yn unig.

| | |
|---|---|
| **1 marc** | Esboniad sylfaenol o leoliadau a ddefnyddir i ennyn diddordeb gwylwyr a/neu ddangos lle mae cymeriadau'n byw ac yn gweithio. |
| **2 farc** | Esboniad manwl o leoliadau i ennyn diddordeb gwylwyr yn y rhediadau stori, dangos lleoedd diddorol, drwy leoliadau hanesyddol. |
| **3 marc** | Esboniad manwl o leoliadau gydag iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg o bosibl am saethiadau camera o leoliadau a/neu apeliadau i gynulleidfa drwy gyfleoedd naratif yn seiliedig ar leoliadau. |
| **4 marc** | Esboniad hyderus o leoliadau yn gysylltiedig â naratif, cymeriadau a *genre* ehangach Drama Wisgoedd a Drama Gyfnod/Hanesyddol a/neu defnydd priodol o iaith y cyfryngau. |
| **5 marc** | Esboniad soffistigedig a/neu'n defnyddio iaith y cyfryngau gyda chyfeirio posibl at greu cyfnod a *mise en scene* hanesyddol, yn gysylltiedig â chymeriadau, cynrychioliad o leoliad, rhanbarth, cenedl neu gyfnod, cymeriadau a rhediadau stori. |
| **6 marc** | Ymdeimlad rhagorol o sut mae lleoliadau'n cael eu defnyddio i greu amrywiaeth o *mise en scene* yn gysylltiedig â *genre* Drama Gyfnod i ddarparu cyfleoedd naratif a chynrychioliadau i apelio at gynulleidfaoedd mewn gwahanol ffyrdd. Efallai y bydd rhywfaint o gyfeirio at ddelweddaeth eiconig delweddau hanesyddol, rhyngdestunedd ffilmiau storïau adeg rhyfel, Lloegr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, dosbarth, Seisnigrwydd, drwy'r lleoliadau a ddefnyddir. |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.2** (a) Nodwch **ddau** rediad stori gwahanol yn y darn. **[4]**

**1 marc** am bob rhediad stori sylfaenol a nodir yn y darn fel:

- Stori am deulu'n paratoi ar gyfer y rhyfel.
- Stori am filwyr yn y rhyfel.
- Gwrthdaro rhwng cymeriadau.

Rhowch **un marc ychwanegol** am ddisgrifiadau manwl ac **un marc arall** am ddefnydd priodol o iaith y cyfryngau.

(b) Esboniwch yn fyr sut mae **pob un** o'r rhediadau stori yn apelio at gynulleidfaoedd. **[6]**
Rhowch hyd at 3 marc ar y mwyaf am esboniad o un rhediad stori'n unig.

| | |
|---|---|
| **1 marc** | Esboniad sylfaenol o'r rhediadau stori gyda disgrifiadau o apeliadau, fel pobl yn hoffi storïau serch, storïau rhyfel a storïau am deuluoedd. |
| **2 farc** | Esboniad manwl o sut mae pob un o'r rhediadau stori a ddewiswyd yn apelio at amrywiaeth o gynulleidfaoedd, fel apeliadau rhyw o ramant, storïau rhyfel a *genre* Drama Deledu, gydag iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg fel *genre*, neu naratif, plot ac is-blot. Efallai y bydd disgrifiadau manwl o'r cymeriadau neu'r lleoliadau ac esboniad o sut mae'r rhain yn apelio at gynulleidfaoedd. |
| **3 marc** | Esboniad hyderus o apêl y rhediadau stori yn seiliedig ar y teulu, adeg rhyfel, dosbarth a rhywedd a sut mae'r rhain yn apelio at gynulleidfaoedd teledu cyfoes *genre* Drama Deledu. Efallai yr ymdrinnir â'r mathau o gynulleidfaoedd mae'r ddrama hon yn apelio atynt, fel cynulleidfaoedd dosbarth canol neu gynulleidfaoedd hŷn. |
| **4 marc** | Esboniad rhagorol o'r storïau/naratifau yn seiliedig ar *genre* Drama Deledu ac is-*genre* Drama Gyfnod, saga teuluol, perthnasoedd adeg rhyfel milwyr a theuluoedd, y gwrthdaro rhwng dosbarthiadau cymdeithasol gwahanol a sut mae'r rhain yn apelio at gynulleidfaoedd teledu cyfoes. Efallai y bydd cyfeirio at ddamcaniaethau apêl i gynulleidfa, defnyddiau a boddhad, dihangdod a hiraeth, ac apeliadau rhyw ehangach storïau rhyfel neu ramant. |
| **5 marc** | Esboniad soffistigedig o apêl naratifau mewn *genres* ac is-*genres* Drama Deledu gydag ymdeimlad o wrthdaro, aflonyddwch a strwythurau Todorovaidd wedi'u crybwyll yn benodol a chyfeirio at ddamcaniaethau apeliadau i gynulleidfa. |
| **6 marc** | Ymdeimlad rhagorol o naratifau yn *genre* Drama Deledu / is-*genre* Drama Wisgoedd, swyddogaeth cymeriadau mewn naratifau, gyda chyfeirio penodol at is-*genres*, *genres* Drama Deledu, sagas teuluol a sut mae'r rhain yn apelio at wahanol gynulleidfaoedd, o bosibl wedi'i gysylltu â syniadau o ddrama boblogaidd ac o safon ar *ITV* a materion sefydliadol ehangach.<br>Bydd ymdeimlad rhagorol o sut mae'r rhediadau stori yn y darn yn apelio at gynulleidfaoedd drwy strwythurau Todorovaidd clasurol fel cytgord, anghydbwysedd, cydbwysedd, neu gyferbyniadau deuaidd, drwy wrthdaro dosbarth a rhyw, aflonyddwch mewn bywyd teuluol a'r themâu a'r plotiau allweddol sy'n cael eu harchwilio yn y darn wedi'u cysylltu ag is-*genres* Drama Deledu o Ddrama Wisgoedd neu Ddrama Hanesyddol. |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.3** Esboniwch sut mae oedran yn cael ei gynrychioli mewn **un** Ddrama Deledu rydych chi wedi ei hastudio. **[10]**

Bydd categorïau sylfaenol o bobl ifanc / hen bobl yn cael eu harchwilio, ond efallai y bydd atebion mwy soffistigedig yn archwilio categorïau mwy cymhleth, fel plentyndod, ieuenctid, arddegau, oedolion ifanc, canol oed a henoed.
Rhowch hyd at 6 marc ar y mwyaf os nad yw enghreifftiau'n cael eu trafod.

| | |
|---|---|
| **1-2 farc** | Disgrifiad sylfaenol o gynrychiolaeth oedran mewn Drama Deledu, fel pobl ifanc neu hen bobl. |
| **3 marc** | Esboniad syml o gynrychiolaeth oedran mewn Drama Deledu. |
| **4-5 marc** | Esboniad manwl o gynrychiolaeth oedran, mewn Drama Deledu briodol. Bydd hyn yn seiliedig ar ddisgrifiad manwl o'u hymddygiad a sut maen nhw'n gwisgo, gydag atebion gwell yn amlwg yn cysylltu ag ymddygiadau nodweddiadol y grŵp oedran hwn. |
| **6 marc** | Esboniad manwl o gynrychiolaeth oedran gyda rhywfaint o iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg trwy stereoteipio, swyddogaeth cymeriad neu naratif neu rywfaint o ddisgrifio codau symbolaidd, fel cod gwisg, iaith y corff ac ystum. |
| **7 marc** | Esboniad hyderus o gynrychiolaeth oedran, gan gyfeirio at agweddau fel stereoteipio oedran. Bydd rhywfaint o gyfeirio at godau symbolaidd gwisg, iaith y corff, lleoliad a chodau gwrthrych a ddefnyddir i greu *mise en scene* a rhediadau stori yn y ddrama ac ymdeimlad hyderus o sut mae'r codau hyn yn adeiladu cynrychioliad o oedran. |
| **8 marc** | Esboniad rhagorol o gynrychiolaeth oedran gan gyfeirio at ddadleuon ynghylch stereoteipiau oedran, yr amrywiaeth o godau symbolaidd, gwrthrychau, lleoliadau a chymeriadau a'r cyfleoedd naratif sy'n dod allan o'r cynrychioliadau o oedran i adeiladu naratifau diddorol ar gyfer cynulleidfaoedd trwy'r cynrychioliadau hyn. |
| **9 marc** | Esboniad o gynrychiolaeth oedran gydag esboniadau manwl o amrywiaeth o godau symbolaidd gydag ymdeimlad go iawn o'r oedran neu'r oedrannau dewisol a gynrychiolir trwy bortreadau cadarnhaol/negyddol a hyn wedi'i gysylltu â'r *genre*, yr is-*genre*, y naratifau a'r dehongliad gan gynulleidfaoedd. Bydd cyfeirio penodol at godau symbolaidd gwisg, iaith y corff, ystum, wedi'i gysylltu â *mise en scene*, y rolau yn y ddrama a sut mae'r rhain yn adeiladu cynrychioliad penodol o'r enghraifft ddewisol. |
| **10 marc** | Ymdeimlad rhagorol/cymhleth o gynrychiolaeth oedran yn *genre* ac is-*genres* Drama Deledu, gyda rhyngdestunedd â chymeriadau eiconig, canolrwydd oedran ym mhob Drama Deledu a sut mae'r cynrychioliadau hyn yn apelio at gynulleidfaoedd am amrywiaeth o resymau drwy gomedi, empathi, cydymdeimlad, cynrychioliadau eraill, atgyfnerthu neu herio stereoteipiau ac ideolegau dominyddol. |

© WJEC CBAC Cyf.

**C.4** Esboniwch pam mae Drama Deledu yn parhau i fod yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd teledu. **[10]**

| | |
|---|---|
| **1-2 farc** | Esboniadau sylfaenol, fel gwylwyr yn gallu gweld eu hoff sêr a storïau ar y teledu. |
| **3 marc** | Esboniad syml o pam mae Drama Deledu yn boblogaidd, fel storïau da, cymeriadau diddorol, lleoliadau a chysylltiadau â bywyd pob dydd. |
| **4 marc** | Esboniad manylach o sut mae Drama Deledu yn denu cynulleidfaoedd drwy storïau, cymeriadau, lleoliadau, sêr y teledu, actorion a pherfformwyr. |
| **5 marc** | Esboniad manwl o sut mae Drama Deledu yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd drwy apêl storïau, naratifau, cymeriadau, sêr y teledu ac apeliadau ehangach codau symbolaidd, fel lleoliadau, gwrthrychau. |
| **6 marc** | Esboniad manwl o sut mae Drama Deledu yn apelio drwy naratifau, cymeriadau a chodau symbolaidd, fel gwisg, gwrthrychau a lleoliadau, gydag iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg. |
| **7 marc** | Esboniad manwl o sut mae Drama Deledu yn apelio gydag iaith-y-cyfryngau hyderus, fel apeliadau *mise en scene*, codau symbolaidd a chynrychioliadau. |
| **8 marc** | Ymdeimlad rhagorol o apeliadau Drama Deledu, fel codau a chonfensiynau generig, naratifau a chynrychioliadau, gyda rhai enghreifftiau effeithiol yn cael eu cynnig i ategu'r ateb. Efallai y bydd cyfeirio at ddefnyddiau a boddhad ehangach y *genres*, yr is-*genres* a'r croesiadau hyn, o bosibl gyda rhywfaint o ddamcaniaeth derbyniad yn amlwg. |
| **9 marc** | Ymdeimlad soffistigedig o'r amrywiaeth o ffyrdd mae Drama Deledu yn boblogaidd, drwy *genres*, is-*genres* a chroesiadiau. Trafodaeth soffistigedig o faterion cymhleth o ryngdestunedd â thestunau eraill, materion gwerthoedd cynhyrchu uchel, rhaglenni o safon a damcaniaethau derbyniad cynulleidfa, defnyddiau a boddhad. Efallai hefyd y bydd esboniad o amserlennu ehangach Drama Deledu trwy wylio amser brig, cyfresi, Operâu Sebon, 'dramâu dwyran' neu Ddrama Deledu 'ar ei phen ei hun'. |
| **10 marc** | Ymdeimlad rhagorol o'r ffyrdd mae Dramâu Teledu yn apelio at gynulleidfaoedd drwy'r codau a'r confensiynau generig, naratifau a chynrychioliadau. Cyfeirio at rai o'r materion trefniadaethol ehangach fel amserlennu drwy 'ddramâu ar eu pen eu hun', 'dramâu dwyran', dramâu sy'n parhau, penodau a chyfresi, i gyd wedi'u cysylltu â materion ehangach o ddrama o safon a rhaglennu a Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Efallai y bydd esboniadau o ddefnyddiau a boddhad drama deledu wedi'u cysylltu ag amrywiaeth o fathau gwahanol o gynulleidfaoedd. |

**Cyfanswm ar gyfer Adran A 40 marc**

© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B: Meddwl am y Cyfryngau – Cynllunio *Drama'n Seiliedig ar y We***

**C.5** Rydych chi'n gweithio i gwmni teledu sydd eisiau datblygu drama newydd yn seiliedig ar y we.

Cwblhewch y tasgau canlynol:

**Tasg 1** Dewiswch enw ar gyfer eich drama'n seiliedig ar y we. Esboniwch yn fyr pam rydych chi wedi dewis yr enw hwn. **[4]**

| | |
|---|---|
| **1 marc** | Am enw wedi'i nodi. |
| **2 farc** | Am enw ac esboniad. |
| **3 marc** | Am enw ac esboniad manwl gydag iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg. |
| **4 marc** | Am enw ac esboniad manwl gydag ymdeimlad go iawn o gynodiad neu gonfensiynau'r *genre*. |

**Tasg 2 (a)** Awgrymwch **ddau** gymeriad ar gyfer eich drama'n seiliedig ar y we. **[2]**

| | |
|---|---|
| **1 marc** | Am bob cymeriad priodol hyd at 2 farc. |

**(b)** Esboniwch yn fyr **pob un** o'u rolau. **[4]**

| | |
|---|---|
| **1 marc arall** | Am esboniad sylfaenol o rolau'r cymeriadau. |
| **2 farc** | Am esboniad manwl gydag iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg, fel swyddogaeth cymeriad, arwr, dihiryn, naratif neu gynrychioliad fel stereoteip. |

**Tasg 3** Amlinellwch y rhediad stori ar gyfer y we-bennod gyntaf. **[10]**

| | |
|---|---|
| **1-2 farc** | Stori gyfyngedig iawn. |
| **3 marc** | Stori sylfaenol. |
| **4 marc** | Stori syml, gyda rhywfaint o ymdeimlad o apêl i gynulleidfa. |
| **5 marc** | Rhediad stori gyda strwythur da ac apêl i gynulleidfa. |
| **6 marc** | Rhediad stori manwl, gydag ymdeimlad da o godau a chonfensiynau penodau drama'n seiliedig ar y we a rhywfaint o ymdeimlad o strwythur trwy ddechrau, canol, diwedd a chymeriadau a lleoliad. |
| **7 marc** | Rhediad stori manwl, gydag ymdeimlad da o godau a chonfensiynau ac iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg am naratif, cymeriad, lleoliad a strwythur. |
| **8 marc** | Defnydd hyderus o godau a chonfensiynau drama'n seiliedig ar y we, gydag iaith y cyfryngau am rediad stori, thema, plot, cymeriadau a lleoliadau. |
| **9 marc** | Rhediad stori soffistigedig gydag ymdeimlad go iawn o godau a chonfensiynau drama'n seiliedig ar y we, dehongliad creadigol o'r dasg ac ymdeimlad go iawn o apelio at gynulleidfaoedd. |
| **10 marc** | Rhediad stori creadigol rhagorol yn llawn dychymyg, gydag ymwybyddiaeth o sut i ddenu cynulleidfaoedd at ddrama'n |

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| | seiliedig ar y we ac ymdeimlad go iawn o godau a chonfensiynau’r cynhyrchion hyn. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Tasg 4** Esboniwch sut bydd eich drama'n seiliedig ar y we yn apelio at gynulleidfaoedd. **[10]**

| | |
|---|---|
| **1-3 marc** | Esboniadau syml o'r ddrama'n seiliedig ar y we. |
| **4 marc** | Esboniad sylfaenol o'r apêl gyda rhywfaint o ymdeimlad o brif nodweddion drama'n seiliedig ar y we. |
| **5 marc** | Esboniadau gydag ymdeimlad da o sut bydd y ddrama'n seiliedig ar y we yn apelio at gynulleidfaoedd. |
| **6 marc** | Esboniadau manwl gydag ymdeimlad da o godau a chonfensiynau drama'n seiliedig ar y we. |
| **7 marc** | Esboniadau manwl gydag ymdeimlad da o godau a chonfensiynau ac iaith y cyfryngau yn dod i'r golwg i esbonio sut mae'r ddrama'n seiliedig ar y we yn denu ac yn dal defnyddwyr. |
| **8 marc** | Esboniadau soffistigedig gydag ymdeimlad go iawn o godau a chonfensiynau a sut caiff cynulleidfaoedd eu denu. |
| **9-10 marc** | Esboniadau rhagorol o sut i ddenu cynulleidfaoedd at ddrama newydd yn seiliedig ar y we gydag ymdeimlad soffistigedig o gyfuno amrywiaeth o godau a chonfensiynau a sut mae hyn yn brandio'r rhaglen newydd gydag ymwybyddiaeth o gynrychioliad, trwy drafodaethau am y codau technegol a symbolaidd, lleoliad, *mise en scene*, naratif, cymeriad a chynrychioliad. |

**Tasg 5** Esboniwch fanteision drama'n seiliedig ar y we. **[10]**

Gall y manteision gynnwys amrywiaeth eang o esboniadau yn seiliedig ar y canlynol:

**Cynhyrchu**

- Yn rhatach i'w gwneud na Drama Deledu sydd â chyllideb fawr .
- Personél rhatach.
- Cyfleusterau technegol rhatach.
- Yn haws ei gwneud / fwy ar gael i gynhyrchwyr annibynnol graddfa fach.
- Yn wych ar gyfer cynnal peilot cyfresi newydd a syniadau newydd.
- Defnyddio cyfarpar cynhyrchu digidol.
- Defnyddio talent a chriw nad ydynt yn broffesiynol.
- Creu cyfresi cysylltiedig newydd, rhaglenni deilliedig (*spin-offs*).

**Dosbarthu**

- Yn llawer haws dosbarthu dros y Rhyngrwyd a cheisio cynulleidfa leol, genedlaethol neu fyd-eang.
- Osgoi rheoleiddio a rheoli gan gyfundrefnau mawr y cyfryngau.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol a thechnolegau newydd ar gyfer hysbysebu, cyhoeddusrwydd a marchnata.

© WJEC CBAC Cyf.

**Arddangos/Defnydd gan gynulleidfa**

- Yn haws i gynulleidfaoedd a defnyddwyr gael ati drwy liniaduron, ffonau symudol a dyfeisiau symudol eraill.
- Yn torri i ffwrdd o batrymau amserlenni traddodiadol.
- Gwylio ar alw.
- Yn gallu bod yn rhyngweithiol, gyda blogiau gwylwyr yn rhagfynegi diweddgloeon a datblygiadau naratif.
- Yn targedu cynulleidfaoedd cloer nad yw Drama Deledu draddodiadol yn darparu ar eu cyfer.

| | |
|---|---|
| **1-3 marc** | Esboniadau sylfaenol o beth yw drama'n seiliedig ar y we, drama fer ar y we. |
| **4 marc** | Esboniadau syml gyda rhywfaint o ymdeimlad o ddramâu'n seiliedig ar y we a'u hargaeledd ar y we. |
| **5 marc** | Esboniadau gydag ymdeimlad o sut mae dramâu'n seiliedig ar y we yn bwysig i ddenu gwylwyr/defnyddwyr newydd, sut mae cael atynt, cynnwys, a'r argaeledd ar ddyfeisiau symudol. |
| **6 marc** | Esboniadau manwl gydag ymdeimlad da o sut mae dramâu'n seiliedig ar y we yn denu gwylwyr/defnyddwyr a pham eu bod nhw'n bwysig, fel mwy o bobl ifanc yn gallu cael atyn nhw ar eu gliniaduron a'u dyfeisiau symudol. |
| **7 marc** | Esboniadau hyderus gydag ymdeimlad da o sut mae dramâu'n seiliedig ar y we yn fantais i gynhyrchwyr drwy fod yn rhatach eu gwneud ac yn haws eu gwylio a chynnig dramâu newydd, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc, y defnyddwyr mwyaf brwd o ddyfeisiau symudol. |
| **8 marc** | Esboniadau rhagorol o fanteision amrywiaeth eang o ddramâu'n seiliedig ar y we. Bydd iaith y cyfryngau yn cael ei defnyddio'n effeithiol i egluro sut mae dramâu'n seiliedig ar y we yn denu gwylwyr ac amrywiaeth o fanteision ar Ddramâu Teledu traddodiadol.<br>Bydd trafodaeth ar y manteision i gynhyrchu o ran costau cynhyrchu rhatach, er enghraifft, mynediad haws i gynhyrchwyr newydd y cyfryngau ddenu cynulleidfaoedd cloer newydd, yn arbennig pobl ifanc.<br>Efallai y cynigir enghreifftiau priodol o ddrama'n seiliedig ar y we. |
| **9 marc** | Esboniadau soffistigedig, gydag ymdeimlad go iawn o'r manteision, neu hyd yn oed anfanteision, ac ymdeimlad o ddrama'n seiliedig ar y we, cyfundrefnau, cynhyrchu, dosbarthu, marchnata a denu cynulleidfaoedd yn amgylchedd newydd y cyfryngau cydgyfeiriol.<br>Efallai y bydd amrywiaeth o enghreifftiau o ddrama'n seiliedig ar y we i ategu'r ateb. |
| **10 marc** | Esboniadau rhagorol o'r mathau hyn o gynhyrchion ar y we a'r cyfryngau cydgyfeiriol. Dylai fod cyfeirio penodol at y canlynol:<br>• Manteision cynhyrchu i gynhyrchwyr.<br>• Manteision dosbarthu i ddosbarthwyr ac ar gyfer amserlennu, gosod a modd i gyrraedd cynulleidfaoedd cloer y cynhyrchion hyn.<br>• Manteision arddangos i gynulleidfaoedd.<br>Efallai hefyd y bydd amrywiaeth ragorol o enghreifftiau o ddrama'n seiliedig ar y we i ategu'r esboniadau a gynigir. |

**Cyfanswm ar gyfer Adran B 40 marc**



© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.